



## Canllawiau ar gyfer Rhaglenni Gradd Proffesiynau Perthynol i Ofal Iechyd (AHP) Cyn-gofrestru



Dyddiad y cytunwyd ar y polisi:  
Hydref 2023

Dyddiad Adolygu: Hydref 2026



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

## Tabl Cynnwys

Rhaglenni AHP cyn-gofrestru .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Rhaglen Radd AHP amser llawn 3 blynedd .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Ariannu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Hyd at 4 blynedd o Raglenni Gradd AHP rhan-amser .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gofynion mynediad .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Ariannu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gwyliau Blynnyddol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Absenoldeb Mamolaeth/tadolaeth .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Absenoldeb Salwch.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gwybodaeth ar gyfer yr holl Raglenni AHP Cyn-gofrestru .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Absenoldeb Mamolaeth/tadolaeth .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Absenoldeb Salwch.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Atodiad A .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

## Rhaglenni AHP cyn-gofrestru

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at randdeiliaid Addysg Cyn-gofrestru gan gynnwys cyflogwyr, Sefydliadau Addysg Uwch, a myfyrwyr. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Mae nifer o raglenni AHP cyn-gofrestru sy'n dod o fewn y cylch gwaith hwn.

Bob blwyddyn, mae AaGIC yn ariannu lleoedd ar ran GIG Cymru ar raglenni AHP cyn-gofrestru. Y rhaglenni cyn cofrestru presennol yw:

- Rhaglenni gradd AHP amser llawn 3 blynedd
- Rhaglenni gradd Therapi Galwedigaethol a Ffisiotherapi rhan amser/hyblyg
- MSc/Diploma Ôl-raddedig Rhaglenni AHP cyn-gofrestru 2 flynedd

Mae'r canllawiau Cymru gyfan hyn yn disgrifio'r gwahanol raglenni cyn-gofrestru AHP y mae AaGIC yn eu comisiynu ac yn manylu ar eu trefniadau ariannu.

### Rhaglen Radd AHP amser llawn 3 blynedd a MSc/Diploma Ôl-raddedig (Dip PG) Rhaglenni AHP cyn-gofrestru 2 flynedd

Rhaglen AHP amser llawn 3 blynedd neu raglen MSc Dip PG 2 flynedd sy'n cynnwys addysgu yn y brifysgol a dysgu seiliedig ar leoliad.

Mae unigolion sy'n bodloni gofynion mynediad eu dewis brifysgol yn gymwys i wneud cais am y rhaglen trwy UCAS ar gyfer y rhaglenni 3 blynedd neu fynediad uniongyrchol ar gyfer MSc/PG Dip. Mae manylion y gofynion mynediad ar gael o wefannau unigol y brifysgol.

Mae AaGIC yn comisiynu'r rhaglenni canlynol gan brifysgolion Cymru y manylir arnynt isod:

Prifysgol Bangor  
[Ffisiotherapi llawn amser \(PgD\)](#)

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd  
[BSc \(Anrh\) Maeth Dynol a Dieteteg llawn amser](#)  
[Dieteteg llawn amser \(PgD\)](#)  
[BSc \(Anrh\) Podiatreg amser llawn](#)  
[Therapi Iaith a Lleferydd llawn amser BSc \(Anrh\)](#)

Prifysgol Caerdydd  
[Therapi Galwedigaethol Llawn Amser \(BSc\)](#)  
[Therapi Galwedigaethol Llawn Amser \(MSc\)](#)  
[Ffisiotherapi llawn amser \(BSc\)](#)  
[Ffisiotherapi llawn amser \(MSc\)](#)

Prifysgol Abertawe  
[Therapi Galwedigaethol Llawn Amser a Rhan Amser, BSc \(Anrh\)](#)

## Gwyddoniaeth Barafeddygol amser llawn, BSc (Anrh)

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

[BSc Therapi Galwedigaethol Llawn a Rhan Amser](#)

[BSc Ffisiotherapi Llawn Amser](#)

[BSc Maeth a Dieteteg Llawn Amser](#)

[BSc Therapi Iaith a Lleferydd Llawn Amser](#)

[Gwyddor Barafeddygol Llawn Amser BSc](#)

### Ariannu

Mae'r trefniadau ariannu ar gyfer y rhaglenni cyn-gofrestru Diploma PG BSc 3 blynedd neu 2 flynedd MSc fel a ganlyn:

- Gall ymgeiswyr wneud cais am **Fwrsariaeth GIG Cymru** gan y Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) ar gytundeb i ymrwymo i weithio yng Nghymru am 2 flynedd ar ôl cwblhau eu rhaglen (18 mis ar gyfer Rhaglenni 2 flynedd Dip PG). Rhaid i ymgeiswyr gofrestru eu bwriadau ar [System Gofrestru Iechyd Cymru](#) ar wefan SAS a chwblhau'r datganiad o fewn Telerau ac Amodau Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Mae **Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru** yn darparu'r cymorth ariannol canlynol i fyfyrwyr:

- Cost ffioedd dysgu
  - Bwrsariaeth prawf modd ar gyfer costau byw
  - £1,000 o grant heb brawf modd,
  - Yn ogystal, cefnogir myfyrwyr ar gyfer costau teithio a llety (tra ar leoliad), Gofal Plant, Lwfans Myfyriwr Anabl, Lwfans Dibynnydd a Lwfans Dysgu i Rien.
  - Os yn gymwys, bydd gennych fynediad i fenthyciad myfyriwr (yn amodol ar reoliadau Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr)
- Bydd myfyrwyr sy'n hangu o Gymru, nad ydynt yn dymuno ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau eu cwrs, yn cael mynediad at y pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydynt eisoes wedi cael benthyciad myfyriwr ar gyfer rhaglen radd flaenorol.
  - Bydd myfyrwyr nad ydynt yn hangu o Gymru, nad ydynt yn dymuno ymrwymo i weithio yng Nghymru, yn parhau i fod yn gymwys i astudio yng Nghymru ond bydd angen iddynt sicrhau cyllid o ffynhonnell arall, gallai hyn gynnwys cyllid gan y corff cyllido perthnasol yn eu mamwlad.
  - Gall myfyrwyr hunan-ariannu eu hyfforddiant.

## Hyd at 4 blynedd o Raglenni Gradd AHP rhan-amser

Rhaglen ran-amser mewn ffisiotherapi neu therapi galwedigaethol dros bedair blynedd. Mae modd i'r canlynol gael mynediad at y rhaglenni hyn:

- gweithwyr presennol o fewn GIG Cymru o ddisgyblaethau perthnasol
- ymgeiswyr nad ydynt yn gweithio i'r GIG ond sydd am astudio'n rhan amser.

Y rhaglenni sydd ar gael yng Nghymru yw:

- [BSc Therapi Galwedigaethol Rhan amser | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam](https://glyndwr.ac.uk/courses/undergraduate-courses/occupational-therapy/)
- [BSc \(Anrh\) Therapi Galwedigaethol Rhan amser | Prifysgol Abertawe](#)
- [BSc \(Anrh\) Therapi Galwedigaethol Rhan amser | Prifysgol De Cymru a BSc \(Anrh\) Ffisiotherapi Rhan amser | Prifysgol De Cymru](#)

Ar gyfer gweithwyr y GIG sy'n derbyn cyllid ôl-lenwi cyflog (a ddisgrifir isod) bydd y gweithiwr yn treulio'r nifer o oriau'r wythnos y cytunwyd arnynt fel myfyriwr, gyda gweddiill eu horiau cytundebol wythnosol yn cyflawni eu rôl bresennol yn eu cyflogaeth barhaol.

### Ariannu

Mae dau lwybr ariannu ar gael ar gyfer y llwybr rhan amser hwn.

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn weithwyr y GIG sy'n cael arian ôl-lenwi cyflog wneud cais am gynllun bwrsariaeth y GIG. Os ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun, byddwch yn derbyn taliad ffioedd dysgu, £1000 o grant heb brawf modd, grant costau byw prawf modd yn ogystal â chymorth gyda chostau gofal plant a chymorth anableded ar sail pro rata. Mae manylion ar gael ar dudalennau gwe AaGIC: [Bwrsariaeth GIG - AaGIC](#).

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n gyflogedig gan y GIG mae nifer o leoedd wedi'u hariannu ar gael ar y llwybr hwn. Mae gan bob sefydliad cyflogi ei brosesau ei hun ar gyfer penderfynu a ellir cynnig cymorth. Os yw lle cyflogai wedi'i gefnogi gan ei gyflogwr GIG, bydd yn gymwys i'w ffioedd dysgu gael eu talu yn ychwanegol at ôl-lenwi cyflog gan eu galluogi i barhau i symud ymlaen â'u hastudiaethau'n rhan amser tra'n cynnal eu contract cyflogaeth gyda'r GIG. Mae nifer y gweithwyr a ariennir yn cael ei bennu gan AaGIC mewn cydweithrediad â chyflogwyr yn flynyddol. Mae'n ofynnol i weithwyr wneud cais am le ar y rhaglen yn uniongyrchol drwy'r broses recriwtio SAU. Os byddant yn llwyddiannus yn eu cais ac yn cael cynnig lle, bydd angen i'w rheolwr llinell gytuno y gellir cefnogi eu cyllid. Rhaid i reolwyr llinell anfon e-bost at [ETFFinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETFFinance.HEIW@wales.nhs.uk). gydag enwau'r aelodau hynny o staff y dyrannwyd cyllid iddynt.

Mae'r trefniadau ariannu llwybrau cyflogedig ar gyfer y rhaglen ran-amser fel a ganlyn:

- Ffioedd dysgu a delir gan AaGIC
- Ymgeiswyr sy'n cael lle hyfforddi ar raglen radd ran-amser **yn parhau i fod yn gyflogedig gyda'u cyflogwr presennol** drwy gydol y cwrs.
- Bydd y cyflogwr yn parhau i dalu cyflog blynyddol i'r cyflogai sy'n cyfateb i'w gyflog parhaol cyfredol am gyfnod y cwrs. Bydd y gweithiwr yn parhau i dalu ei ddiwydiadau arferol o'i gyflog, fel cyfraniadau pensiwn, treth, a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Dylai cyflogwyr ofyn am ad-daliad gan AaGIC o gostau ôl-lenwi cyflog ar gyfradd o 16 awr yr wythnos ar gyfradd gyflog gyfredol y cyflogai ond dim mwy nag ar ganol yr agenda ar gyfer newid band 3. RHAID i'r oriau gofynnol sy'n weddill (hyd at 7 awr) **gael** eu hariannu gan y sefydliad sy'n cyflogi. Bydd AaGIC yn ariannu gweithwyr i gael ad-daliad am gostau teithio mewn perthynas â theithio i leoliadau clinigol/sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n **fwy na** chost teithio ddyddiol rhwng eu cartref a'u canolfan waith. Ni ddylid ad-dalu treuliau i unrhyw fyfyrwr sy'n ymgymryd, ar gais, â lleoliad y tu allan i Gymru.
- Bydd yn ofynnol i weithwyr GIG Cymru gael cyfrif e-dreuliau i hawlio ad-daliad costau teithio.
- Dylai cyflogwyr gyflwyno Anfonebau i AaGIC yn fisol yn rhoi manylion y costau hynny mewn perthynas â:
  - a. Costau ôl-lenwi cyflog gweithwyr (16 awr) ynghyd ag argostau cyflogwr am hyd y cwrs (ac eithrio goramser ac unrhyw ychwanegiadau).
  - b. Cost teithio i'r myfyrwr o deithio i'w leoliad clinigol a/neu sefydliad addysg uwch ac oddi yno sy'n **fwy** na'r gost ddyddiol o deithio rhwng eu cartref a'u canolfan waith.
  - c. Mae milltiroedd awdurdodedig a ad-delir ar gyfradd wrth gefn GIG Cymru (cyfradd trafndiaeth gyhoeddus flaenorol), sef 28 ceiniog y filltir ar hyn o bryd. Dylai'r rheolwr llinell yn Sefydliad GIG Cymru sicrhau bod pob hawliad teithio yn cael ei wirio gyda'r Arweinydd Addysg yn ei sefydliad/SAU cyn cymeradwyo'r taliadau hyn.
  - d. Gweler Atodiad A - Siart Llif am ad-daliad costau lleoliad.
  - e. Ni fydd AaGIC yn ad-dalu taliadau car prydles y GIG. Os bydd unrhyw gostau'n gysylltiedig â dychwelyd car ar brydles, cysylltwch â chyllid AaGIC ar [ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk).
  - f. Bydd AaGIC yn ad-dalu costau sy'n fwy na'r ffioedd parcio arferol a godir gan weithwyr i fynychu SAU/leoliadau clinigol. Fodd bynnag, os bydd gweithiwr fel arfer yn mynd i ffioedd maes parcio yn ei weithle, dim ond ffioedd sy'n fwy na'r swm hwn a gaiff eu had-dalu.
- Dylid labelu anfonebau at sylw AaGIC a'u cyflwyno i AaGIC drwy [ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk).

- **Nid** yw gweithwyr ar y rhaglen hon yn gymwys i wneud cais am gynllun bwrsariaeth GIG Cymru.

### Gwyliau Blynyddol

Dylid cadw hawl i wyliau blynyddol ar gyfer Gweithwyr y GIG sy'n derbyn ôl-lenwi cyflog yn ôl eu hawl cytundebol, gan gydnabod na fu unrhyw newid i delerau ac amodau unigolyn y cytunwyd arno drwy'r llwybr addysg hwn ac felly mae eu contract cyflogaeth yn parhau i fod yn berthnasol am y cyfnod hwn.

Gellir rhoi dyddiadau tymhorau rhaglen-benodol i gyflogwyr ar gais i AaGIC yn [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk).

### Absenoldeb Mamolaeth/tadolaeth

Ni fydd AaGIC yn ad-dalu costau cyflogwr sy'n deillio o absenoldeb myfyriwr o hyfforddiant oherwydd absenoldeb mamolaeth estynedig.

Rhaid i'r SAU a Sefydliad y GIG gysylltu ag AaGIC pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i'w hyfforddiant i aildechrau cyfraniadau ôl-lenwi.

### Absenoldeb Salwch

Ni fydd AaGIC yn ad-dalu costau cyflogwr sy'n deillio o absenoldeb myfyriwr o hyfforddiant oherwydd absenoldeb salwch hirdymor estynedig.

Rhaid i'r SAU a Sefydliad y GIG gysylltu ag AaGIC pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i'w raglen astudio i aildechrau cyfraniadau ôl-lenwi.

Mae gwybodaeth gyffredinol ychwanegol yn ymwneud ag absenoldeb salwch ar gyfer pob rhaglen AHP cyn-gofrestru i'w chael yn yr adran "Gwybodaeth ar gyfer yr holl Raglenni AHP Cyn-gofrestru" isod.

## Gwybodaeth ar gyfer yr holl Raglenni AHP Cyn-gofrestru

### Gofynion mynediad

Mae rhaglenni ar gael i ymgeiswyr sy'n bodloni meini prawf cymhwyster y brifysgol i wneud cais. Gellir cyrchu'r gofynion mynediad o wefannau unigol y brifysgol.

Absenoldeb  
Mamolaeth/tadolaeth

Dylai myfyrwyr gadw at bolisiau Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth a Rhiant eu cyflogwr/prifysgol.

Pan fo myfyriwr angen i hyd ei hyfforddiant gael ei ymestyn oherwydd absenoldeb mamolaeth, dylai'r SAU wneud cais ffurfiol am gyllid ychwanegol gan AaGIC drwy lenwi'r ffurflen gais am newid ar-lein.

Absenoldeb  
Salwch

Dylai myfyrwyr gadw at bolisi Absenoldeb Salwch eu cyflogwr/Prifysgol. Pan fo myfyriwr angen i hyd ei hyfforddiant gael ei ymestyn oherwydd Salwch, dylai'r SAU wneud cais ffurfiol am gyllid ychwanegol gan AaGIC drwy lenwi'r ffurflen gais newid berthnasol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen esboniad pellach, anfonwch e-bost at:  
[ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk)/ [HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk](mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk).

Atodiad A

Siart llif ar gyfer ad-dalu costau lleoliad ar gyfer myfyrwyr a ariennir drwy lwybr y cyflogai

